| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **7 EBRILL 2025** |
| TEITL: | **CYNLLUN HYFFORDDIANT** |
| PWRPAS: | **Derbyn diweddariad am hyfforddiant 2024/25 a Cynllun Hyfforddiant 2025/26** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i ddiweddaru'r Bwrdd am yr hyfforddiant sydd wedi digwydd yn 2024/25 a nodi Cynllun Hyfforddiant 2025/26 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1.2 Mae gan y Gronfa bolisi hyfforddiant cyfredol: Polisi Sgiliau a Gwybodaeth 2022 (cronfabensiwngwynedd.cymru)


## 2. HYFFORDDIANT 2024/25

2.1 Mae'r cynllun a fabwysiadwyd yn 2024/25 yn atodiad 1 gyda'r cynnydd wedi ei nodi. Yn ychwanegol i'r Cynllun hyfforddiant mae'r swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd wedi mynychu nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn.

2.2 O fewn y Cynllun roedd disgwyliad hefyd i swyddogion fynychu cwrs Cau Cyfrifon CIPFA, ond oherwydd nad oedd newid mewn rheoliadau cyfrifo nid oedd hyn yn angenrheidiol eleni.

## 3. CANLYNIADAU ASESIAD GWYBODAETH CENEDLAETHOL CPLLL 2024


3.1 Yn 2024, cymerodd aelodau'r Pwyllgor a Bwrdd y Gronfa ran yn yr asesiad hwn, gyda'r canlyniadau'n cael eu meincnodi yn erbyn cronfeydd eraill. Ar ôl cwblhau'r asesiad, derbyniodd pob aelod adroddiad canlyniadau unigol yn manylu ar eu perfformiad, ac mae'r canlyniadau cyffredinol i weld isod:



3.2 Mae Hymans Robertson wedi adnabod rhain fel y meysydd y dylid ffocysu hyfforddiant arno:

- Dulliau actiwaraidd
- Safonau ac arferion
- Gweinyddu pensiwn
- Marchnadoedd ariannol a gwybodaeth am gynnyrch

3.3 Gofynnodd yr arolwg i'r aelodau nodi pa bynciau yr hoffent dderbyn hyfforddiant arnynt. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r meysydd lle nododd yr aelodau y byddai hyfforddiant yn fuddiol:




3.4 Y pynciau fwya poblogaidd oedd:

- Llywodraethu da
- Llywodraethu pensiynau
- Materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu
- Dulliau actiwaraidd

**4. CYNLLUN HYFFORDDIANT 2025/26**

4.1 Mae cynllun hyfforddiant ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 2.

4.2 Rydym wedi cwmpasu'r pynciau a nodir yn 3.2 a 3.4 i'r Cynllun Hyfforddiant. Bydd eitem gweinyddiaeth pensiwn yn dod yn fwy rheolaidd i'r pwyllgor, a byddwn yn darparu gwybodaeth o fewn y meysydd o safonau ac arferion a marchnadoedd ariannol yn ein paneli buddsoddi.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad a Cynllun Hyfforddiant 2025/26.